

# Llwybrau Llafar

---




[dysgucymraeg.cymru](http://dysgucymraeg.cymru)  
[learnwelsh.cymru](http://learnwelsh.cymru)


national  
museum  
wales  
cymru  
angwedd  
dfa



Noddir gan  
Lywodraeth Cymru  
Sponsored by  
Welsh Government



**MYNEDIAD**



**SYLFAEN**



**CANOLRADD**



**UWCH**



**HYFEDREDD**

# Ysgol Maestir


---



# YSGOL MAESTIR

**Cyn mynd i Ysgol Maestir**  
**Before going to Ysgol Maestir**

EDRYCHWCH ar y map ordnans o'r Amgueddfa.



## Edrychwch ar y map ac atebwch y cwestiynau:

Beth ydy enw'r pentref yn ymyl yr Amgueddfa?

Oes traffordd ar y map? Pa draffordd?

Beth ydy enw'r afon sy'n mynd heibio'r Amgueddfa?

Ble dych chi'n gallu chwarae 18 twll?

**yn ymyl** near

**traffordd** motorway

**heibio** past

**twll** hole

# YSGOL MAESTIR

## Tu allan i'r ysgol Outside the school

Cyn mynd i mewn i'r ysgol, edrychwch ar y plac dwyieithog. Triwch ddarllen y Gymraeg yn gyntaf, yna darllenwch y darn Saesneg ac mewn paruau gofynnwch ac atebwch y cwestiynau.

*Before going into the school, look at the bilingual plaque. Try reading the Welsh section first then read the English section and in pairs ask/answer the questions.*



Beth ydy enw'r ysgol?  
 Ble roedd yr ysgol cyn dod i Sain Ffagan?  
 Beth oedd enw'r brifathrawes rhwng 1895 a 1904?  
 Faint oedd oedran y plant ifanca yn yr ysgol?  
 Faint oedd oedran y plant hyna yn yr ysgol?  
 Beth ydy'r '3 R' – yn Gymraeg?  
 Faint o blant oedd yn yr ysgol?  
 Ble roedd rhieni'r plant yn gweithio?  
 Beth oedd iaith y rhan fwya o'r plant ar iard yr ysgol?  
 Beth oedd iaith y rhan fwya o'r gwersi yn yr ysgol?

<b>ifanca</b>	youngest
<b>hyna</b>	oldest
<b>y rhan fwya</b>	the majority

## Tu fewn i'r ysgol

**Atebwch y cwestiynau gyda'ch partner:  
Answer the questions with your partner:**

Ble mae'r desgiau mawr – tu ôl neu tu blaen?  
 Pwy oedd yn eistedd wrth y desgiau bach?  
 Ydy'r cwpwrdd llyfrau wrth y drws neu yn y gornel?  
 Enwch ddau lyfr sy yn y cwpwrdd.  
 Oes map o Gymru yn y stafell? Ble?  
 Dych chi'n gallu gweld Curwen's Modulator yn y stafell?  
 Ydy'r modulator yn helpu'r plant i ganu?  
 Sut dych chi'n gwybod?  
 Ble mae'r stôf – yr ochr dde i'r drws neu'r ochr chwith?  
 Ydy'r desgiau mewn grwpiau neu mewn rhesi?  
 Mae llun Prif Weinidog ar un wal. Beth ydy ei enw e?  
 Mae llun bardd yno hefyd. Beth ydy ei enw e?  
 Dych chi wedi clywed enw'r Prif Weinidog neu'r bardd o'r blaen?



rhesi	rows
Prif Weinidog	Prime Minister
bardd	poet
o'r blaen	before

**Darllenwch yr adroddiad Saesneg ac atebwch y cwestiynau.**  
**Read the report and answer the questions.**

**Report on St Mary's Board School,  
Maestir, Lampeter  
March 30th 1881**

*The new school has been in use since its opening in 1880 and is greatly appreciated by pupils, teacher and parents alike. Miss T— reports that the pupils have settled well after their move from the lessons in St Mary's Church. All without exception wish to send heartfelt thanks to the Falcondale Estate for this recent addition to the wellbeing of the village.*

*On the occasion of the Inspection on Wednesday 30th March, there were 29 pupils present, ages from 5-14. Miss T— is ably assisted by one pupil teacher. Lessons in Reading, Writing and Arithmetic took place in English. It was observed that Singing at the end of the day used Tonic Sol-fah and the words sung were in Welsh. Miss T— keeps order well, but frequently uses the Welsh language to communicate with the more unruly boys in the playground. I was unable to ascertain what was being said. This information is included as almost all parents of the pupils are in the employment of the Falcondale Estate, and have expressed a wish for their children to be taught in English.*

*Attention is also drawn to School Log Book where there is also frequent use of the Welsh language, which in the Inspector's opinion, is unacceptable as an official record. This is mentioned as it may be necessary to advertise for an alternative to the present Teacher who is perhaps not sufficiently experienced.*

<b>disgybl athro</b>	pupil teacher
<b>iard yr ysgol</b>	playground
<b>llyfr log</b>	log book
<b>arolygwr</b>	inspector
<b>digon o brofiad</b>	sufficiently experienced
<b>beirniadu</b>	to criticise



**Atebwch y cwestiynau:**

- Ble roedd yr ysgol cyn symud i Maestir?
- Faint o ddisgyblion oedd yn yr ysgol ar 30 Mawrth?
- Faint yw oed y plant hyn?
- Beth maen nhw'n ei ddysgu?
- Ydy'r plant yn canu caneuon Saesneg?
- Ble mae rhieni'r plant yn gweithio?
- Gyda phwy mae'r athrawes yn siarad llawer o Gymraeg?
- Pwy sy'n helpu'r athrawes?
- Ble mae'r athrawes yn ysgrifennu Cymraeg?
- Ydy'r rhieni eisiau i'r plant ddysgu Saesneg?
- Fydd yr athrawes yn aros yn yr ysgol?
- Mae'r Arolygwr yn beirniadu'r athrawes? Pam?

# YSGOL MAESTIR

Dyma'r Llyfr Log – hanner Cymraeg, hanner Saesneg. Beth am gyfieithu'r cyfan i'r Gymraeg? Defnyddiwch y geiriau ar y gwaelod i'ch helpu.

*This is the Log Book – half Welsh, half English. Using the vocabulary at the bottom of the page, provide a full Welsh translation of the Log Book.*

## LLYFR LOG YSGOL MAESTIR – 1881

### Dydd Llun 10 Ionawr

*There were 20 pupils in the school today. I had to cosbi dau fachgen. Aeth y pupil teacher adre. Roedd y ddannodd arni hi.*

### Dydd Mawrth 11 Ionawr

*There were 19 in the school today. Roedd y tywydd yn very cold.*

### Wednesday 12 January

*10 present today. Mae llawer o blant staying at home because of the tywydd.*

### Dydd Iau 13 Ionawr

*Mae llawer o blant yn dost/sâl. Y measles yw'r rheswm.*

### Dydd Gwener 14 Ionawr

*12 present today. Roedd rhaid cadw'r plant tu mewn – gwynt a rain all day. I had to cosbi two boys.*

### Dydd Llun 17 Ionawr

*Dim ond pedwar present today. Terrible eira. I do not know how the children will mynd adref. Mae'r ffordd tu allan i'r ysgol is closed. Dw i'n poeni, does dim help at all.*

### Dydd Mawrth 18 Ionawr

*Dim ond un child sy 'ma heddiw. She has a bad cough.*



disgybl athro	pupil teacher
y ddannodd	toothache
y frech goch	measles
yn bresennol	present
drwy'r dydd	all day
ar gau	closed
plentyn	child
peswch	cough



**Roedd rhaid i blant ddysgu penillion bach ar eu cof i'w helpu i ddysgu, er enghraifft: *Children had to learn stanzas off by heart that helped them to understand, for example:***

A noun is the name of anything,  
As hoop or garden, school or swing,  
An adjective describes a noun,  
Small shoes, bright eyes, new gloves, green gown,  
A verb tells what people do,  
They dance, she walks, he laughed, it flew,  
An adverb tells how things are done,  
We quietly walk, they quickly run...

**Dyma fersiwn Cymraeg i'ch helpu chi heddiw ond does dim rhaid i chi ei ddysgu ar eich cof!**

***This is a similar Welsh version to help you today but you don't have to learn it off by heart!***

ENW yw 'noun' yn yr iaith fain,  
fel *gardd, tŷ, mamgu a nain*.  
ANSODDAIR sy'n eu disgrifio'n wych;  
tŷ *bach, gardd fawr* neu *dywydd sych*.  
RHAGENW yw 'pronoun' *fi, ti a hi,*  
*fy mhen, ei char, dy goes, ei thŷ*  
BERFENW yw *codi, mynd a dod*  
ond BERF yw *codais, aeth a cod*  
maen nhw'n esbonio pryd a phwy.  
ARDDODIAID yw 'prepositions' fel *dros a drwy*  
*ar drên, wrth fynd, heb wallt, dan do*  
*o le i le, gan ganu at ferch (neu fab) am dro.*



<b>iaith fain</b>	the English language
<b>gwyb</b>	excellent
<b>cod(a)</b>	get up

Beth am geisio gwneud y symiau yma?

Cofiwch fod 12 ceiniog (*penny* – d) mewn swllt (*shilling* – s) ac ugain swllt mewn punt (£). Ambell waith mae dimai (*halfpenny*) ½ sef hanner ceiniog.

	£	s	d
	10	14	7
+	4	5	5

	£	s	d
	20	2	2½
+	52	17	9½

	£	s	d
	21	15	11
-	14	8	4

	£	s	d
	20	0	0
-	10	10	3

## SYMIAU ERAILL

**Pa mor hir yw'r daith ar y trên o Lundain i Penzance?**

(Llundain i Gaerfaddon 107 milltir, Caerfaddon i Exeter 87 milltir, Exeter i Plymouth 53 milltir, Plymouth i Penzance 327 milltir)

4,648,950 yw poblogaeth Llundain, 798,357 yw poblogaeth Glasgow, 723,430 yw poblogaeth Lerpwl, 557,938 yw poblogaeth Manceinion, 537,965 yw poblogaeth Birmingham, 450,142 yw poblogaeth Leeds a 432,940 yw poblogaeth Sheffield.

Faint yn fwy yw poblogaeth Llundain na phoblogaeth y dinasoedd eraill gyda'i gilydd?

# YSGOL MAESTIR

Ewch mewn i'r ysgol a siaradwch mewn paruau.

## Gallwch drafod:

Dych chi'n meddwl bod yr ystafell yn edrych yn ffurfiol (*formal*)? Pam?

Y lluniau ar y wal – dych chi wedi clywed am y ddau berson yn y lluniau?

Beth am y gansen – dych chi'n cofio athrawon yn defnyddio'r gansen (*cane*)?

Dych chi'n cytuno â defnyddio'r gansen?

Oes atgofion gyda chi am eich ystafell ddosbarth yn yr ysgol gynradd?

Beth am eich atgofion am y dodrefn, y llyfrau, yr offer?



## WEDYN, EDRYCHWCH AR Y LLUN.

**Rachel Ann Thomas y brifathrawes sy'n siarad.**

Daeth ffotograffydd i'r ysgol heddiw. Doedd y plant ddim wedi gweld ffotograffydd o'r blaen. Roedden nhw yn gyffrous iawn a'r plant bach yn cael ofn achos aeth e o dan y clogyn du i dynnu eu llun. Roedden ni'n lwcus achos roedd y tywydd yn eitha da ond aeth yr haul dan gwmwl am rai munudau. Roedd pawb mewn rhesi a'r plant bach y tu blaen a'r plant mawr y tu ôl. Roedd yn cymryd amser ac roedd e'n tynnu sawl llun achos roedd y bechgyn mawr yn y cefn yn symud o hyd.

Dim ond 23 disgybl oedd yn yr ysgol heddiw yn anffodus. Roedd tua dwsin yn absennol - bechgyn i gyd am eu bod nhw yn helpu eu rhieni. Mae'r rhan fwya ohonyn nhw yn gweithio ar fferm y stâd yn ystod y tywydd braf. Dylen nhw fod yn yr ysgol achos fe ddwedais wrthyn nhw fod y ffotograffydd yn dod heddiw. Fe fydda i yn anfon llythyr yn cwyno at y rhieni. Mae pawb oedd yn yr ysgol yn edrych ymlaen at weld y llun nawr. Baswn i'n hoffi rhoi llun y plant ar wal yr ysgol ar ôl ei gael, achos bydd y plant bach wrth eu bodd, siŵr o fod. A dweud y gwir, dydw i ddim yn meddwl eu bod nhw wedi gweld eu lluniau o'r blaen.

**Atebwch y cwestiynau:**

Oedd y plant wedi gweld ffotograffydd o'r blaen?  
Sut roedd y plant yn teimlo?  
Oedd y tywydd yn heulog drwy'r amser?  
Pam roedd y ffotograffydd yn tynnu sawl llun?  
Oedd pawb yn yr ysgol? Pwy oedd yn absennol?  
At bwy fydd yr athrawes yn anfon llythyr?  
Pam roedd problemau absenoldeb – yn ôl y brifathrawes?  
Bethasai'r brifathrawes yn hoffi'i wneud ar ôl cael llun?  
Fydd y plant yn falch?

**Trafodwch y llun mewn parau:**

Beth mae'r plant yn ei wisgo? Ydyn nhw yn lân? Ydyn nhw yn edrych yn hapus?  
Beth am y brifathrawes, sut mae hi'n edrych?  
Weloch chi lun ohonoch chi yn yr ysgol?  
Beth sy'n mynd drwy'ch meddwl wrth weld y lluniau hynny?



# YSGOL MAESTIR

**Mewn parau:** Un ohonoch i ddarllen llythyr yr athrawes at ei mam a'r partner arall i ddarllen dyddiadur yr athrawes ar yr un diwrnod.

## LLYTHYR MEGAN

31 Mawrth 1881

Plas Falcondale

Annwyl Mam

Gobeithio y bydd y llythyr yma yn codi eich calon wedi'r newyddion drwg am Eifion. Daeth Mr Williams i'r ysgol wythnos diwethaf i wneud yr Inspection. Roedd popeth yn iawn ac roedd y plant yn dawel. Rydw i'n mwynhau dysgu yn fawr, ac yn edrych ymlaen at gael *good report*. Mae'r ysgol newydd yn llawer gwell na'r Eglwys. Mae stôf gynnes yn yr ysgol ac mae'r plant yn gallu sychu eu dillad o flaen y stôf ar ôl cerdded i'r ysgol yn y glaw. Roedd un ferch yn dost ofnadwy ar ôl cael y frech goch ym mis Ionawr.

Mae'n ddrwg gen i glywed bod Eifion wedi colli ei swydd eto ac yn gwrthod codi o'r gwely tan hanner dydd. Brawd bach drwg oedd e erioed. Mae'n rhy hoff o'r dafarn, dyna'r drwg yn y caws. Neu'r drwg yn y cwrw, efallai! Rydw i'n gorfod cosbi rhai bechgyn bob wythnos. Fe fydda i'n barod iawn i ddefnyddio'r gansen arnyn nhw ar ôl gwyliau'r Pasg.

Eich merch ffyddlon

Megan

CANOLRADD  
AC UWCH



**DYDDIADUR MEGAN***31 Mawrth 1881*

Mae'n rhaid i fi ddal ati yn y swydd ofnadwy 'ma, neu fe fydd mam yn siomedig. Ond mae'n waith anodd iawn. Llawer o baratoi bob nos. Ambell waith rydw i'n teimlo'n unig iawn. Mae'r stafell sy gen i yn y plas yn gyfforddus ond dydy'r morynion a'r gweision yno ddim eisiau bod yn ffrindiau gyda fi. Dywedodd un forwyn: 'pam mae'n rhaid i fi lanhau dy stafell di? Rwy'ti'r un oed â ni ond rwy'ti'n meddwl dy fod yn well na ni – dim ond achos dy fod yn athrawes.'

Rydw i'n hoffi Gruffudd, un o'r gweision – hwsmon ydy e ac mae ganddo wallt du, cyrliog. Mae'n gwenu arna i weithiau. Mae e'n fy hoffi, dw i'n credu, ond dydy e ddim eisiau i'r gweision a'r morynion eraill wybod, rhag ofn y byddan nhw yn grac neu yn genfigennus.

Roedd y plant yn ddrwg iawn yr wythnos 'ma. Mae Dafydd yn 14 oed ac mae e'n tynnu gwallt Mair drwy'r amser. Roeddwn i'n arfer rhoi'r gansen iddo ond mae'n fwy na fi erbyn hyn! Heddiw fe neidiodd i ben y gadair a chwerthin fel rhywun gwallgof. Fe ddylai e ddechrau gweithio gyda'i dad. Garddwr ydy e, rydw i'n credu.

A dydy'r stôf ddim yn gweithio'n dda iawn chwaith. Mae'n ddeg o'r gloch bob bore cyn cael digon o wres yn yr ystafell. Wedi cael llond bola o weithio mewn lle oer. Rydw i'n edrych ymlaen at fynd adref i weld mam ond mae pythefnos arall cyn y Pasg. Ond bydd Eifion yno, gwaetha'r modd.

**Trafodwch y gwahaniaethau rhwng y llythyr a'r dyddiadur.**

Pam mae gwahaniaethau?

Ydy bywydau pobl ifainc sy'n dechrau gweithio heddiw yn haws nag yn 1881?

Ydych chi'n cadw dyddiadur? Pam?/Pam ddim?

<b>morwyn/morynion</b>	maid/s
<b>gwas/gweision</b>	servant/s
<b>hwsmon</b>	houseman
<b>cenfigennus</b>	jealous
<b>gwallgof</b>	mad

# Eglwys Sant Teilo

---



# EGLWYS SANT TEILO

**Cyn mynd i Eglwys Sant Teilo, darllenwch y darn canlynol:**

*Dyma Rhagair y Dr Eurwyn Wiliam i lyfryn am Eglwys Sant Teilo.*

Ym 1508 gofynnwyd i gerflunydd ifanc roi'r gorau i'r gwaith roedd yn ei wneud a pheintio nenfwd yn lle hynny. Treuliodd y pedair blynedd nesaf yn peintio un o gampweithiau mwya'r byd. Enw'r artist oedd Michelangelo Buonarroti, ei gleient oedd y Pab a'r nenfwd a beintiodd oedd nenfwd y Capel Sistinaidd yn Rhufain.

Rhyw ddeng mlynedd yn ddiweddarach, roedd crefftwr arall yn addurno waliau eglwys arall, sef eglwys blwyf Llandeilo Tal-y-bont, de Cymru. Does neb yn gwybod ei enw a chawn ni byth wybod. Ond bellach gallwn weld yr hyn yr oedd ef a'i gyfeillion yn ei wneud yn yr eglwys nodweddiadol hon yn ei holl ogoniant am fod yr eglwys wedi'i hailgodi a'i haddurno fel y byddai wedi edrych yn y 1520au.

Mae Sain Ffagan yn enwog am yr adeiladau sydd wedi eu hailgodi yno. Aildddefnyddiwyd yr holl ddefnyddiau gwreiddiol a oedd wedi goroesi ac ymchwiliodd arbenigwyr i'r eitemau oedd ar goll. Mae teils y llawr a'r gwydr, yr allor a'r dodrefn wedi eu hail-greu'n ofalus. Cerfiwyd ac addurnwyd croglen newydd â llaw, a gorchuddiwyd y waliau â pheintiadau.

Mae'r canlyniad yn gampwaith o grefftau traddodiadol, ac yn deyrnged i grefftwyr y gorffennol a'r presennol fel ei gilydd. Yn ei ffordd ei hun mae Eglwys Sant Teilo'r un mor drawiadol â'r Capel Sistinaidd.

<b>rhagair</b>	foreword	<b>goroesi</b>	to survive
<b>cerflunydd</b>	sculptor	<b>allor</b>	altar
<b>nenfwd</b>	ceiling	<b>croglen</b>	rood-screen
<b>campwaith/campweithiau</b>	masterpiece/s	<b>gorchuddio</b>	to cover
<b>nodweddiadol</b>	characteristic	<b>teyrnged</b>	tribute
<b>gogoniant</b>	glory	<b>trawiadol</b>	striking



# YR HEN EGLWYS AR Y GORS

**Roedd Eglwys Sant Teilo'n arfer bod ar lan afon Llwchwr, ger Pontarddulais. Yr 'hen eglwys ar y gors' oedd yr enw arni bryd hynny. Eglwys blwyf Llandeilo Tal-y-bont oedd hi – sy'n awgrymu bod lle i groesi'r afon yno.**

## PERERINION

Mae'n debyg bod pererinion yn aros a gweddio yn yr eglwys cyn croesi afon Llwchwr ar eu ffordd i Dyddewi.

Tu allan i'r eglwys yn y fynwent cynhelid gwyliau, chwaraeon a ffeiriau. Yr eglwys oedd y lle pwysicaf yn y gymdeithas.

Roedd dylanwad yr eglwys yn gryf. Pam? Roedd popeth – salwch, tlodi, llwyddiant a methiant y cnydau yn dibynnu ar sut roedden nhw yn ymddwyn fel Cristnogion.

Eglwys Gatholig oedd hi ym 1520. Doedd y bobl ddim yn deall yr offeren Ladin nac yn gallu darllen OND roedden nhw yn gallu deall stori'r murluniau mawr ar y waliau.

Mae'r eglwys ei hun wedi mynd ar BERERINDOD erbyn hyn – o lannau afon Llwchwr i Sain Ffagan.

pererinion	pilgrims
tlodi	poverty
cnydau	crops



**Felly, pererinion ydych chi. Pererinion yr unfed ganrif ar hugain.**

Beth ydych chi? **Pererinion crefyddol** neu **bererinion seciwlar**?

Ydy Cymru wedi newid ers y dyddiau cynnar? Trafodwch gyda'ch gilydd.

## YN YR EGLWYS

EDRYCHWCH AR Y MURLUNIAU A THRAFOD Y STORIÂU SY'N CAEL EU HADRODD YN Y LLUNIAU GYDA'CH PARTNER er enghraifft:

- ...y 'stori' yn y llun o offer y saer (morthwyl, hoelion, cŷn). Pa arwyddocâd sydd i'r llun hwn?
- ...stori'r murlun sy'n dangos yr Iesu yn marchogaeth i Jeriwsalem (asyn, palmwydd)
- ...neu'r murlun sy'n disgrifio'r Swper Olaf (y disgyblion, bradwr)
- ...y croeshoelio
- ...esgyniad yr Iesu i'r nefoedd
- ...pam maen nhw'n lliwgar?

**RHAI CWESTIYNAU - AC ATEBION - YCHWANEGOL** (Er mwyn cael yr atebion edrychwch i'r chwith o ddrws yr eglwys a chwiliwch am y tabledi pren. Darllenwch nhw. Ceir cwestiynau ac atebion arnynt)

Faint o'r gwaith hwn sy'n seiliedig ar beintiadau gwreiddiol o'r eglwys hon?

Pwy oedd Sant Teilo?

Ble mae'r peintiadau gwreiddiol?

Sut cafodd yr eglwys ei symud i'r Amgueddfa?

**arwyddocâd** significance

**esgyniad** ascension

**tabledi pren** wooden tablets

**TRAFODWCH YR ATEBION MWYAF DIDDOROL GYDA'CH PARTNERIAID**



# Tai Teras Rhyd-y-car

---



# TAI TERAS RHYD-Y-CAR

**Cerddwch i fyny'r llwybr o flaen y tai, edrychwch i'r chwith ac atebwch y cwestiynau:**

1. Sawl tŷ sy yn y rhes?
2. Mae'r tai ar yr ochr chwith. Ydyn nhw yn dai mawr?
3. Ewch i mewn i'r tŷ cynta. Sawl stafell sydd yno?
4. Oes bwrdd yno?
5. Oes cwpwrdd yno hefyd? Ble mae'r cwpwrdd?
6. Ydy'r gegin yn fach? Ydy'r ystafell wely yn fawr?
7. Beth sy ar y llawr – llechi neu garped?
8. Ewch mewn i'r pedwerydd tŷ.  
Ydy e'n fwy cyfforddus? Pam?
9. Ewch i mewn i'r chweched tŷ. Beth sy ar y llawr?
10. Oes grisiau yn y tŷ 'ma?
11. Beth arall sy yn y gegin?
12. Pa fwyd maen nhw'n ei fwyta?

llechi	slates
pedwerydd	fourth
cyfforddus	comfortable



# TAI TERAS RHYD-Y-CAR

Cerddwch i fyny'r llwybr o flaen y tai, edrychwch i'r chwith ac atebwch y cwestiynau:

1. Ar waelod y rhes ar y chwith mae rhywbeth pwysig arall ar gyfer pob bwthyn. Beth yw e?
2. Pa lysiau sy'n tyfu yn yr ardd?
3. Sawl gardd lysiau sy yn y rhes?
4. Mae adeilad arall i gadw anifail yng ngardd un bwthyn. Beth yw e?
5. Beth sy ar waelod yr ardd yn y pedwerydd tŷ?
6. Fasech chi'n hoffi reidio'r beic yn yr ardd?
7. Beth arall sy yng ngardd y pumed tŷ?
8. Pam mae'r pumed bwthyn yn wahanol?
9. Beth dych chi'n gallu'i weld yno? Oes lawnt yno?
10. Rhywbeth arall?

twlc/cut mochyn	pigsty	bresych	cabbage
colomendy	dove cote	cennin	leeks
tŷ gwydr	glasshouse	ffa	broad beans
wedi rhydu	rusted	tatws	potatoes
llechi	slates		

Trafodwch y canlynol gyda phartner a gofynnwch y cwestiynau i'ch gilydd. Yn gynta, dewiswch ddau fwthyn gwahanol i'w trafod ac edrychwch ar y geiriau uchod i'ch helpu pan fyddwch yn ateb cwestiynau. Beth yw dyddiadau'r ddau fwthyn a ddewisoch chi?

- Fasech chi'n hoffi teithio yn ôl mewn amser i fyw ynddyn nhw am gyfnod? Pam? Pam ddim?
- Sut mae celfi/dodrefn a phethau eraill yn y bythynnod yn dangos y newid a ddigwyddodd rhwng y ddau ddyddiad?
- Pa bethau sy'n awgrymu bod bywyd yn anodd i'r bobl oedd yn byw yn y bythynnod?
- Beth sy'n awgrymu sut roedd y bobl yn treulio eu hamser hamdden?

**Gofynnwch y cwestiynau i bartner newydd wedyn cymharwch eich atebion a thrafod.**

Beth yw'ch barn chi? Ydy cadw'r chwe bwthyn i ddangos y gwahaniaeth rhwng gwahanol gyfnodau hanesyddol yn syniad da? Pam?

Mae llawer o adeiladau fel bythynnod Rhyd-y-car wedi cael eu symud i Sain Ffagan. Fasai hi'n well peidio â'u symud o Ferthyr Tudful a chreu amgueddfa fach debyg yno?

# TAI TERAS RHYD-Y-CAR

## DARLLENWCH

**Merthyr oedd tref fwy Cymru yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y diwydiant haearn oedd yn gyfrifol am ddenu pobl i'r ardal. Dyma rai ffeithiau sy'n esbonio pam y tyfodd yn dref mor bwysig. Roedd yr holl ddeunydd crai ar gyfer y diwydiant haearn ar gael yn yr ardal. Beth oedd y rheiny?**

- mwyn haearn
- glo
- gelltydd (sef digon o goed)
- calch
- pŵer dŵr

'Mae'r fro gyfan fel petai wedi'i bwriadu i fod yn un gwaith haearn enfawr,' yn ôl un sylwebydd.

Ond doedd cael yr holl adnoddau hyn gyda'i gilydd ddim yn ddigon. Yn ffodus roedd galw mawr am haearn. Yn y ddeunawfed ganrif roedd Prydain yn rhyfela llawer ac roedd galw mawr am arfau. Roedd ffermwyr hefyd wedi dechrau defnyddio offer haearn yn lle pren.

Roedd un elfen arall wedi helpu datblygiad Merthyr, sef dull arbennig o gynhyrchu haearn. 'Pydlo' oedd yr enw ar y dull newydd hwn o drin haearn tawdd. Roedd yn golygu ei bod yn bosib cynhyrchu pymtheg tunnell o farrau haearn mewn deuddeg awr yn lle un dunnell fel o'r blaen. Er mai Sais o'r enw Henry Cort a ddyfeisiodd grefft 'pydlo' yn 1784, datblygwyd y broses ar gyfer masgynhyrchu gan gwmni enwog Crawshay ym Merthyr.

deunydd crai	raw material
gallt/gelltydd	coed yn y De; rhiw/iau yn y Gogledd
calch	lime
arf(au)	weapon(s)
offer	equipment
haearn tawdd	haearn a gafodd ei doddi

# TAI TERAS RHYD-Y-CAR

Hanesydd pwysig o ardal Dowlais a Merthyr oedd Gwyn Alf Williams (1925-1995). Ysgrifennodd lyfr sy'n cael ei gyfrif yn glasur am hanes y terfysg mawr ym Merthyr yn nechrau'r 1830au pan gododd y gweithwyr yn erbyn y perchnogion. Teitl y gyfrol yw *Merthyr Rising*.

Mae Gwyn Alf Williams yn sôn am sefyllfa yng Nghymru bryd hynny pan oedd hi'n bosib i gael un brawd yn byw yng nghanolbarth Cymru yn ffermio ac yn defnyddio dulliau o weithio a oedd yn dyddio'n ôl i'r oesoedd canol. Tra bo'i frawd wedi symud i weithio i Ferthyr ac yn defnyddio dull 'pydlo' yn y gwaith, sef y dull mwya modern o weithio yn y byd!



## TAITH TRWY AMSER - O 1805 I 1985 MEWN 6 NOSON

**Gofynnwyd i chi dreulio min nos a chysgu noson ymhob bwthyn mewn rhaglen deledu realiti. Gallwch weithio mewn paruau a chwarae rôl yr holwr a'r teithiwr bob yn ail.**

**Edrychwch ar y grid i'ch helpu i ail-fyw'r profiad ar ôl ymweld â'r bythnod.**

**Dechreuwch yn y gwaelod a dringo ysgol amser.**

## BWTHYN 1 (1805)

### Beth sydd yn y bwthyn?

stafell gefn	back room
bord/bwrdd	table
sgiw/setl	settle
llawr llechi	slate floor

### Cwestiynau

Beth oedd y sioc fwya o dreulio min nos mewn tŷ 200 oed?  
Beth wnest di cyn mynd i'r gwely?  
Oedd hi'n anodd cysgu?  
Oedd hi'n swllyd?  
Beth am y llygod bach yn dod o'r tyllau yn y wal?



BWTHYN 1 (1805)



BWTHYN 2 (1855)

## BWTHYN 2 (1855)

### Beth sydd yn y bwthyn?

dresel	dresser
cannwyll	candle
platiau pewter	pewter plates
llun y mab afradlon	the prodigal son
grisiau cul, troellog	twisty, windy steps
jygiau glas	blue jugs

### Cwestiynau

Oedd hi'n haws treulio'r noson yma?  
Pam?  
Beth am y profiad o fynd i gysgu?  
Freuddwydiest di am y mab afradlon?



## BWTHYN 3 (1895)

### Beth sydd yn y bwthyn?

llawr cerrig	stone floor
lliain bwrdd	tablecloth
cadair freichiau	armchair
clustog	cushion
cist o ddroriau	chest of drawers
drych	mirror
pellenn o wllân	a ball of wool
lluniau'n hongian ar y wal	wall hangings
sampler gwnïo	sewing sampler

### Cwestiynau

Beth oedd y profiad mwya braf wedi cyrraedd cegin 1895?  
Fuoch chi'n busnesa tipyn wrth edrych o gwmpas?  
Oes syniad gyda chi beth ydy sampler?



BWTHYN 3 (1895)



BWTHYN 4 (1925)

## BWTHYN 4 (1925)

### Beth sydd yn y bwthyn?

oelcloth ar y llawr	oilcloth on the floor
cadair esmwyth (lledr)	easy chair (leather)
cwprdd cornel	corner cupboard

### Cwestiynau

Ydy'r ugeinfed ganrif yn teimlo'n gyfforddus?  
Ond, a oes rhywbeth ofnadwy wedi digwydd?  
Oedd hi'n haws cysgu yma?

## BWTHYN 5 (1955)

### Beth sydd yn y bwthyn?

hwfer hen ffasiwn (erbyn heddiw)	old-fashioned Hoover (nowadays)
teledu	television
carped	carpet
cegin ar wahân	separate kitchen
set radio	radio

### Cwestiynau

Oes dewis o ddwy stafell gyda chi heno?  
Ble byddwch chi'n treulio'r min nos?  
Pam?  
Oes gardd lysiau yma?  
Ydych chi'n colli'r lle tân agored?

UWCH



## BWTHYN 6 (1985)

### Beth sydd yn y bwthyn?

peiriant golchi dillad	washing machine
stôf drydan	electric stove
lle tân modern	modern fireplace
oergell	refrigerator
bath/baddon yn y gornel	bath in the corner
colomendy yn yr ardd	dovecote in the garden

### Cwestiynau

Oedd hi'n braf cael bath ar ôl dros gan mlynedd a hanner?!  
Pa raglenni oedd ar y teledu heno?  
Oedd y stafell hon yn dy atgoffa o dŷ arall rwyd ti'n ei gofio?  
Tŷ mamgu/tadcu taid/nain falle?  
Pryd o fwyd sydd ar y plât?

**Meddylwch am y gwrthrychau (objects) a oedd yn gysylltiedig â'r bythynnod trwy sylwi ar y geiriau uchod. Dewiswch ddau neu dri gwrthrych gwahanol a meddwl am eich cysylltiad chi â nhw pan oeddech yn iau.**

**Er enghraifft:**

**DRESEL/SELD (Beth am dynnu llun neu ddeigram syml o'r gwrthrych?)**

*Pan o'n i'n blentyn dyma'r dodrefnyn/celficy'n mwya a phwysica yng nghegin fy mamgu. Dw i'n cofio'r llestri gorau – y platiau, y cwpanau a'r soseri ar y silffoedd a'r jwgiau glas yn hongian ar fachau. Ar y silff fawr bren ar ganol y ddresel roedd addurniadau mwy o faint fel dau gi gwyn, un ar bob ochr i'r silff.*

*Roedd mamgu yn arfer cadw arian yn y jwgiau: arian ar gyfer talu dyn y glo mewn un jwg, arian i dalu'r fan groser a arferai ddod heibio yn y llall, arian mân ar gyfer pob math o bethau a gweithgareddau. Ar waelod y ddresel roedd dau ddrws bob ochr ac roedd hi'n cadw pob math o bethau at iws y tŷ ynddyn nhw: siswrn, papur, glud, llyfrau coginio ac yn y blaen. Yng nghanol y ddresel yn y gwaelod doedd dim drws, dim ond lle gwag agored. Yn y fan honno roedd Beibl mawr y teulu yn cael ei gadw ond dw i ddim yn cofio amdano yn cael ei symud oddi yno a'i ddarllen!*

Ar ôl i un partner siarad gallai'r partneriaid ofyn cwestiynau am sgysiau ei gilydd – er enghraifft:

- Ble roedd mamgu/nain yn byw? O't ti'n hoffi mynd yno?
- Beth am y tŷ – oedd e'n hen ffasiwn iawn? Neu'n gymysgedd o'r hen a'r newydd?
- Wyt ti'n cofio a oedd arogl neu wynt arbennig yn y tŷ?
- Oedd hi/taid/tadcu yn dy ddifetha neu dy sbwylio?
- Oes atgof arbennig gyda ti am y lle?

Mae llawer o wrthrychau diddorol eraill yn y tai: y lluniau ar y wal, y baddonau hen ffasiwn a modern, y gegin yn yr ardd ym mwthyn pump, y gwely plu ac yn y blaen.



## POBI BARA – A’R IAITH!

Roedd naw ar hugain o dai yn Rhyd-y-car yn wreiddiol. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd y tai yn fach a’r teuluoedd yn fawr. Felly, roedd yn rhaid i’r wraig bobî ei bara ei hun mewn ffwrn fach. Er mwyn gwneud y dasg o bobî bara yn haws, adeiladodd Richard Crawshay, y meistr haearn ym Merthyr, dair ffwrn gymunedol.



### Dyma ddarn byr o hen Lawlyfr Amgueddfa Sain Ffagan yn disgrifio’r poptai hyn:

Doedd poptai masnachol ddim yn gyffredin iawn ym mhentrefi a threfi Cymru cyn dechrau’r ugeinfed ganrif. Roedd gwragedd yn pobî bara mewn ffyrnau bach iawn, a hynny yn aml ar gyfer teuluoedd mawr. Roedd help wrth law, sef ffyrnau cymunedol, mewn manau cyfleus yn ymyl rhes o dai. **Defnyddid** y poptai gan drigolion y tai. Fel arfer roedd pob teulu yn cael defnyddio’r ffwrn ar ddiwrnod arbennig, ond weithiau roedd rhywun yn cael y gwaith o ofalu am y ffwrn ac yn cael eu talu. Rhyw geiniog y dorth fel arfer.

Roedd naw ar hugain o dai yn Rhyd-y-car yn wreiddiol. Adeiladodd Richard Crawshay, perchennog y gwaith haearn, dair ffwrn gymunedol ar gyfer tenantiaid y tai hyn. **Adeiledid o** rwbel tywodfaen a’u toi gyda theils cerrig fel y rhai sy ar do’r pedwar tŷ cyntaf yn rhes dai Rhyd-y-car. Roedden nhw’n arfer rhoi carreg fawr dros geg y ffwrn a’i selio gyda chlai er mwyn gwneud yn siwr bod y bara’n pobî’n dda.

**popoty/poptai**

oven/s

**tywodfaen**

sandstone

**ffwrn/ffyrnau**

furnace/oven

**selio**

to seal

## DEFNYDDID | ADEILEDID

Berfau amhersonol yw’r rhain. Does dim sôn am unrhyw berson ynddyn nhw – felly, maen nhw yn amhersonol. Maen nhw’n cyfeirio at weithgareddau a oedd yn digwydd dros gyfnod o amser yn y gorffennol: er enghraifft – DEFNYDDID dyma sut roedden nhw yn arfer cael eu defnyddio. Ceir ffurfiau amhersonol yn y gorffennol – ADEILADWYD (mae’n wahanol i ADEILEDID am ei fod yn cyfeirio at rywbeth adeiladwyd unwaith) a’r presennol a’r dyfodol ADEILEDIR. Ffurfiau a ddefnyddir wrth ysgrifennu yw’r rhain yn bennaf. Ar lafar rydym yn fwy tebygol o ddweud ‘Arferai tai gael eu hadeiladu’ yn lle ADEILEDID.

# Llainfadyrn a Nantwallter

---



# LLAINFADYN

Beth am edrych ar y ddau fwthyn o'r tu allan gynta?

**Edrychwch ar y cwestiynau CYN mynd mewn i'r tŷ. Peidiwch ateb y cwestiynau yn y tŷ. Mae'n rhy dywyll i chi ddarllen yno!**

Oes ffenest yn y tŷ? Sawl ffenest?  
Ydy'r ffenestri yn fawr neu'n fach?  
Oes tân trydan yno?  
Dych chi'n hoffi tân glo?  
Ble mae'r llestri glas?  
Beth sy yn y bwced wrth y tân?  
Sawl bwrdd sy yn y stafell?

Beth ydy siâp y bwrdd bach?  
Ydy'r lein ddillad yn y tŷ?  
Beth sy'n hongian ar y lein?  
Dych chi'n gwybod beth ydy enw'r cloc mawr yn y tŷ?  
Beth ydy'r dyddiad ar y trawst?

**MYNEDIAD  
A SYLFAEN**

**AR ÔL bod yn y tŷ, edrychwch ar y geiriau 'ma. Atebwch y cwestiynau nawr.**

<b>cyn</b>	before	<b>crwn</b>	round	<b>hongian</b>	hanging
<b>peidiwch</b>	don't	<b>glo</b>	coal	<b>dyddiad</b>	date
<b>rhy dywyll</b>	too dark	<b>crys</b>	shirt	<b>trawst</b>	beam
<b>dresel/seld</b>	dresser	<b>tadcu/taid</b>	grandfather	<b>ar ôl</b>	after
<b>ffenest</b>	window	<b>trydan</b>	electric		

**Edrychwch yn ofalus ar bopeth yn y tŷ. Beth am ddefnyddio'r geiriau bach i ddisgrifio ble mae popeth yn y tŷ? Use the following short words/prepositions to describe the location of things in the house.**

Er enghraifft: Mae bwcedaid o lo wrth y lle tân / Mae'r bwyd yn y cwpwrdd...

<b>yn y</b>	in the
<b>uwchben</b>	above
<b>ar ben</b>	on-top of
<b>wrth</b>	near
<b>o dan</b>	under

<b>Ile tân hen ffasiwn</b>	old fashioned fireplace
<b>siambr</b>	chamber/bedroom
<b>dresel/seld</b>	dresser

<b>bwrdd crwn/ ford gron</b>	round table
<b>cwpwrdd llechen</b>	slate cupboard/ cold store
<b>cwpwrdd bara caws</b>	bread and cheese/ food cupboard
<b>bwcedaid o lo</b>	a bucketful of coal
<b>cloc tadcu/taid</b>	grandfather clock
<b>crogllofft/taflod</b>	garret/attic
<b>trawstiau</b>	beams
<b>gwely cwpwrdd</b>	cupboard bed

# LLAINFADYN

Dyma rai geiriau i'ch helpu i drafod Llainfadyn gyda'ch tiwtor a phobl eraill:

<b>cerrig mawr/meini</b>	large stones	<b>dyfalu</b>	to guess
<b>gwyngalchu</b>	whitewashed	<b>tyddyn</b>	smallholding
<b>llechen/llechi</b>	slate/slates	<b>twlc/cut</b>	pigsty
<b>siambr</b>	chamber/bedroom	<b>ieir</b>	hens
<b>croglofft</b>	attic/garret	<b>beudy</b>	cowshed
<b>lletywr/lojer</b>	lodger	<b>gwartheg</b>	cows

## DARLLEN

Cafodd Llainfadyn ei adeiladu yn 1762 o gerrig mawr y mynydd yn Sir Gaernarfon. Meini yw'r enw arall ar gerrig fel hyn. Un ffenest fach a drws sydd yn ffrynt y tŷ. Cafodd ei wyngalchu. Llechi sydd ar y to.

Yn 1861 roedd Ann a Hugh Williams a'u chwech o blant, morwyn a lletywr yn byw yn y bwthyn! Bydd yn rhaid i chi ddyfalu ble roedd pawb yn cysgu ar ôl mynd i mewn i'r bwthyn. Roedd dwy siambr a chroglofft yno.

Roedd Hugh Williams yn gweithio yn y chwarel a'i wraig yn gofalu am y tyddyn. Roedd beudy i gadw gwartheg a thwlc/chut i gadw mochyn yno, ac ieir i gael wyau hefyd siŵr o fod. Edrychwch o gwmpas y bwthyn. Tybed a gafodd y beudy a'r cut/twlc eu symud i Sain Ffagan?



# NANTWALLTER

Cerddwch lawr y ffordd o Lainfadyn i fwthyn Nantwallter. Dim ond canllath sydd rhwng y ddau fwthyn yn Sain Ffagan. Fe gafodd y ddau eu hadeiladu yn y ddeunawfed ganrif hefyd. Unwaith eto **cyn** mynd i mewn i'r tŷ edrychwch ar y geiriau canlynol.

Defnyddiwch y geiriau bach i ddweud ble mae'r gwrthrychau yn y tŷ. Er enghraifft:

Mae'r ddwy fainc WRTH y ford.

Mae troell YN y gegin...

Mae ffrâm i ddal llwyau YN hongian...

canllath	hundred yards
deunawfed ganrif	eighteenth century
geiriau bach	prepositions
gwrthrychau	objects





# LLAINFADYN A NANTWALLTER

## EDRYCHWCH AR Y Tŷ CYN CERDDED DRWY'R DRWS. TRAFODWCH Y CWESTIYNAU CANLYNOL GYDA PHARTNER:

Ewch i Nantwallter. Cafodd ei adeiladu tua 1770 – tua'r un cyfnod â Llainfadyn. Tŷ clom ydy e, sef tŷ o bridd wedi ei gymysgu â gwellt a mwd. Deunyddiau lleol i gyd.

### Sylwch ar y waliau a'r ffenestri. Sut basech chi'n eu disgrifio?

**NODYN:** Cafodd y tŷ ei adeiladu o fwd neu glai wedi'u cymysgu â gwellt neu flew ceffyl. Ar ôl codi tua dwy droedfedd roedd yn rhaid gadael i'r wal sychu cyn codi dwy droedfedd arall – mae tŷ clom yn enw arall arno.

### Sylwch ar y to. Sut basech chi'n disgrifio'r to?

**NODYN:** Roedd hi'n bwysig bod y to gwellt yn ymestyn dros y waliau er mwyn eu hamddiffyn rhag y glaw.

### Pa adeilad arall sydd y tu allan i'r tŷ?

**NODYN:** Roedd llawer o dai bach (nid toiledau oedd 'tai bach' ond tai yn y wlad oedd ddim yn ffermydd!) yn cadw mochyn. Ro'n nhw'n arfer lladd y mochyn wedyn a defnyddio pob rhan ohono. Popeth ond y wich yn ôl yr hanes!

EWCH I MEWN i'r tŷ nawr. Edrychwch ar y geiriau:

pridd	soil	simnai lwfer, agored	louvre, open chimney
amddiffyn	protect	'slawer dydd	a long time ago – south Wales
gwich	squeak	'stalwm	a long time ago – north Wales
troell	spinning wheel	ffrâm i ddal llwyau	wooden frame to hold spoons
bwrdd pren/ford bren	wooden table	cryman	sickle
dwy fainc	two benches		
sgiw/setl	settle		
piser(i)	pitcher/s		
croglofft	garret/attic		

### Cymharwch tu fewn i Nantwallter â thu fewn Llainfadyn.

AR ÔL DOD ALLAN trafodwch beth sy'n WAHANOL yn y ddau dŷ – a beth sy'n DEBYG. Yn eich barn chi, oedd y ddau deulu yn gyfoethog neu'n dlawd? Oedd un teulu yn DLOTACH (YN FWY TLAWD) neu'n GYFOETHOCACH (YN FWY CYFOETHOG) na'r llall. Rhesymau?

# LLAINFADYN KATE ROBERTS

Cafodd Kate Roberts y llenor enwog (1891-1985) ei magu mewn bwthyn tebyg i Lainfadyn ym mhentref Rhostryfan yng ngogledd orllewin Cymru. Yn y llyfr *Y Lôn Wen* mae ganddi nifer o ddisgrifiadau neu 'ddarluniau' o fywyd merch i chwarelwr yn ystod y 1890au. Darllenwch y 'darlun' canlynol. Ysgrifennodd Kate Roberts y darn hwn tua'r flwyddyn 1960, pan oedd tua 68 oed ond mae'n sôn am rywbeth a ddigwyddodd pan oedd hi tua wyth oed.

Sylwch ar arddull y darn. Ysgrifennwyd y cyfan mewn Cymraeg llenyddol:

Yr wyf - rydw i/dw i

Ni allaf - alla i ddim/dydw i ddim yn gallu

Safaf yn stond (*stock still*) - dw i'n sefyll

Ystyr 'gennyf' ydy 'mae gen i'.

'Dyfod' ydy 'dod'.

'Wrthyf fi' ydy 'wrtha i'.

Efallai bod rhai idiomau yn newydd i chi hefyd. Er enghraifft:

pob dim - popeth

fel petai'n berwi - as if it's boiling

fel petaent/fel petaen nhw - as if they



## DARLLENWCH y darn cyn neu ar ôl bod yn ymweld â'r tŷ

Y Lôn Wen, tudalen 22/23

Mae pryder mawr wedi dyfod i'n tŷ ni, y mae'n gorwedd dros bob dim ac wedi gafael ymhob un ohonom. Mae Dafydd, fy mrawd ieuengaf, sy'n ugain mis oed, yn sâl iawn dan yr infflimesion. Mae'r doctor wedi bod ac wedi dweud ei fod mewn perygl mawr. Mae tân yn y siamber, tecell tun yn berwi arno ac anger yn mynd ohono i gyfeiriad y gwely. Mae arnaf ofn mynd i'r siamber i weld Dafydd, ond yr wyf yn medru gweld gweld y tecell a'r anger. Mae'r tŷ fel petai'n berwi, a phawb yn methu gwybod beth i'w wneud. Toc, dyma ddweud wrthyf fi am fynd i nôl dŵr soda i siop ym Mhen y Ffridd. Mae hi'n naw o'r gloch y nos, ac er bod lleud llawn, mae arnaf ofn. Nid ofn bwgan, ond ofn, ofn i rywbeth ddigwydd, ofn na chaf y dŵr soda, ofn yn llenwi'r ffordd a'r nos, fel yr oedd yn y tŷ gynnu.

Yr wyf yn treio rhedeg i goncro'r ofn, ond mae fy nhraed fel petaent yn mynd yn ôl yn lle ymlaen. Yr wyf yn cyrraedd pant Pen Rhos, ac yno yn y cae, ar y chwith i mi, mae rhes o ysbrydion mewn dillad gwynion yn gafael yn nwylo'i gilydd. Safaf yn stond, ac mae fy nghalon wedi sefyll. Yr wyf bron â mygu. Ni allaf byth eu pasio ac y mae'n rhaid i mi gael y dŵr soda ar unwaith. Beth petai Dafydd bach yn marw am fy mod wedi bod yn hir? Mae fy nghoesau'n teimlo fel petaent am grychu i'w gilydd fel concertina, ond dyma fi'n symud un troed ac yn symud y llall a gweld fy mod yn medru rhedeg. Wedi mynd ychydig o lathenni, yr wyf yn mentro edrych yn ôl i weld cefnau'r ysbrydion. Cefnau glas sy' ganddynt, ac wrth gwrs, rhes o bileri llechi ydynt wedi eu clymu wrth ei gilydd efo weiren. Y lleud yn disgleirio arnynt oedd yn eu gwneud yn ysbrydion. Caf y dŵr soda, ac nid oes arnaf ofn mynd adre. Mae'r feddyginiaeth gennyf a'r ysbrydion wedi diflannu.

Geiriau anodd eraill:

<b>siamber</b>	parlwr; ystafell wely, chamber	<b>crychu</b>	to curl up
<b>anger/ager</b>	steam	<b>llathen/llathenni</b>	yard/s
<b>toc</b>	yn fuan	<b>pileri llechi</b>	slate pillars
<b>bwgan</b>	ysbryd	<b>stond</b>	stock still
<b>bron â mygu</b>	nearly suffocated	<b>meddyginiaeth</b>	medicine

## Darllenwch y darn UNWAITH ETO.

Ers 2005, mae Cae'r Gors yn Rhosgadfan (sy'n debyg i fwthyn Llainfadyn o Rostryfan) yn amgueddfa sy'n cofio Kate Roberts a'i gwaith. Roedd bywyd yn galed yn y 1890au pan oedd Kate yn blentyn.

### Ar ôl ymweld â Llainfadyn a darllen y darn trafodwch:

Pam mae'n ddarlun da o fywyd y cyfnod?  
Sut gymeriad yw Kate Roberts, y plentyn yn y darn?  
A oes ganddi ddychymyg byw?  
Eich profiadau chi o fod yn ofnus pan o'ch chi'n blentyn.

### NODYN

Mae'r bachgen sy'n sâl 'dan yr infflimesion' yn y darn yn bwysig iawn yn hanes Kate Roberts y llenor. Mewn 'darlun' arall mae'n disgrifio'i hun yn ei fagu (*to nurse*) mewn siôl er mwyn i'w mam gael llonydd i lanhau'r tŷ.

Pan oedd yn 17 oed fe gafodd Dafydd ei ladd yn y Rhyfel Mawr. Roedd ei farwolaeth wedi cael effaith go fawr ar Kate Roberts. Roedd yn teimlo bod yn rhaid iddi 'ysgrifennu neu fygu' (*suffocate*). Gair mae hi'n ei ddefnyddio yn y darn uchod.



### Trafodwch

Er bod Llainfadyn a Nantwallter yn perthyn i'r un cyfnod, ceir llawer o wahaniaeth rhyngddynt nhw hefyd. Doedd bywydau'r bobl yn y ddau dŷ ddim yn gyfoethog ond roedd trigolion Llainfadyn yn gyfoethocach na thrigolion Nantwallter.

Roedd chwarelwyr y diwydiant llechi yng ngogledd Cymru fel y diwydiant glo yn ne Cymru yn cael gwell cyflogau na gweision a morynion ffermydd. Dyna pam roedd gweithwyr yn tyrru i'r gweithfeydd glo a'r chwareli llechi – er bod y gwaith yn llawer mwy peryglus yno nag ar ffermydd.

Beth am eich teulu chi? Oes gynnoch chi dadcu neu famgu neu daid a nain a aeth i ffwrdd i weithio er mwyn ennill cyflogau da?

# Sefydliad y Gweithwyr Oakdale

---



# SEFYDLIAD Y GWEITHWYR OAKDALE

**Darllenwch y sgwrs gyda Grenville Hall. Mae dwy ran i'r sgwrs.**

**Atebwch y cwestiynau ar ôl pob rhan.**

**Read this two-part conversation with Grenville Hall.**

**Answer the questions following each part.**

**MYNEDIAD  
A SYLFAEN**

*Ble cest ti dy eni Grenville?*

Ces i fy ngeni yn ardal Oakdale a Penmaen.

*Ble mae Oakdale a Penmaen?*

Mae'r ardal hon yng nghwm Sirhywi yn neddwyrain Cymru.

*Wyt ti'n cofio adeilad pwysig yno?*

Ydw, roedd Sefydliad y Gweithwyr yn adeilad pwysig iawn.

*Pam roedd e'n bwysig i ti?*

Dw i'n cofio mynd yno i fenthyca llyfrau o'r llyfrgell.

*Wyt ti'n cofio pa lyfrau?*

Ydw, llyfrau *Secret Seven* a *Famous Five* Enid Blyton.

*Beth arall wyt ti'n gofio?*

Chwarae snwcer a biliards gyda'r bechgyn eraill.

*Roedd e'n lle pwysig iawn i ti, Grenville.*

Oedd wir, achos ro'n i'n arfer mynd i ddawnsio yno gyda fy nghariad. Ar ôl priodi yng nghapel y pentref gwnaethon ni gael bwyd – nage, gwledd yno yn 1967.

## MIS MEDI 2017

*Pam mae'r dyddiad yma'n bwysig i ti?*

Mae'r Sefydliad yn gant oed eleni a 'dyn ni'n dathlu.

*Ond Grenville, dyw'r Sefydliad ddim yn y pentref nawr - mae e yn Sain Ffagan!*

Ydy ers 1985, ond mae'n bwysig cofio am yr adeilad o hyd.

*Sut dych chi'n dathlu bod yr adeilad yn gant oed?*

Mae pobl y pentref yn dod i Sain Ffagan am benwythnos. Mae côr Mynydd Islwyn yn canu ac mae pobl ifanc a phobl hŷn y pentref yn dangos yr adeilad i ymwelwyr.

*Beth ydy dy waith di yn ystod y dathlu?*

Dw i'n cydlynu gwaith y project.

*Sut o'ch chi'n paratoi?*

Gwnaethon ni ffilm a gofyn i hen bobl y pentre am eu hatgofion. 'Dyn ni'n dangos y ffilm yn ystod y penwythnos hefyd.

1. Ble mae cwm Sirhywi?
2. Pam roedd y Sefydliad yn bwysig i blant fel Grenville?
3. A pham roedd e'n bwysig i fechgyn ifanc y pentref?
4. Priododd Grenville yn 1967. Oedd e'n dathlu priodas arian neu briodas aur yn 2017?
5. Faint oedd oed y Sefydliad yn 2017?
6. Ydy'r adeilad yn y pentref nawr?
7. Oedd yr adeilad yn lle pwysig i Grenville?
8. Oes adeilad pwysig yn eich bywyd chi? Pam mae e'n bwysig i chi?

1. Ers pryd mae'r Sefydliad yn Sain Ffagan?
2. Côr Sain Ffagan sy'n canu yn ystod y dathlu?
3. Pwy sy'n dangos yr adeilad?
4. I bwy maen nhw'n dangos yr adeilad?
5. Beth ydy gwaith Grenville?
6. Pwy fydd yn ateb cwestiynau am eu hatgofion?
7. Pam mae'n bwysig dathlu gwaith hen adeiladau fel Oakdale?

de-ddwyrain	south east
gwledd	feast
dathlu	celebrating
cydlynu	co-ordinating
atgofion	memories

# SEFYDLIAD Y GWEITHWYR OAKDALE

**EWCH I MEWN I'R LLYFRGELL A DARLLENWCH Y  
DARN CANLYNOL**

Cwm tawel a gwledig oedd Cwm Sirhywi cyn 1906. Mewn pentref o'r enw Ynys Ddu, er enghraifft, ganwyd y bardd Islwyn (1832-1878). Teitl ei gerdd fwya enwog oedd 'Y Storm' ac roedd byd natur a chrefydd yn bwysig iddo. Fe fu'n weinidog gyda'r Methodistiaid. Ond daeth dwy storm arall i'r ardal yn 1906 a 1910 pan gafodd dwy siafft newydd eu suddo er mwyn chwilio am lo. Ac roedd gwythiennau glo cyfoethog iawn yno. Wedyn symudodd miloedd o bobl yno i weithio yn y pyllau newydd. Doedd y rhan fwya o'r rhain ddim yn siarad Cymraeg. Dyma stormydd swnllyd y chwyldro diwydiannol.

Fe gafodd pentref newydd ei greu er mwyn rhoi cartrefi i'r gweithwyr. Roedd yn bentref model, sef enghraifft o bentref modern ar y pryd. Cafodd ei alw yn Oakdale. Daeth gwaith newydd â chymdeithas ac arferion newydd. Felly, cododd y glowyr, gyda help perchennog y gwaith, adeilad Sefydliad y Gweithwyr – y Stiwt. Lle i ddarllen papurau newydd, chwarae billiards a snwcer, benthycu llyfrau, addysgu, dawnsio, a chymdeithasu.

crefydd	religion
gweinidog	minister
gwythiennau	coal seams, veins
pwll/pyllau glo	coal mine(s)
chwyldro diwydiannol	industrial revolution



# SEFYDLIAD Y GWEITHWYR OAKDALE

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd (1939-1945) roedd gweithio o dan ddaear a ffermio yn ddau waith pwysig er mwyn cael bwyd a gwres. Am fod Prydain yn ynys roedd hi'n anodd mewnforio bwyd. Ymunodd llawer o lowyr â'r Fyddin yn 1939. Roedd bywyd wedi bod yn anodd iawn i lowyr yn ystod y 1920au a'r 1930au felly, roedd llawer ohonyn nhw yn falch o gael antur newydd. Penderfynodd Ernest Bevin, Gweinidog yn y Llywodraeth, anfon un o bob deg o'r bechgyn a gafodd eu conscriptio yn ddeunaw oed i weithio dan ddaear. Bevin Boys oedd yr enw arnyn nhw a doedden nhw ddim yn boblogaidd gan yr hen lowyr.

Un o'r Bevin Boys a weithiai ym mhwill glo Oakdale oedd bardd o'r enw T. Glynne Davies. Roedd e'n fardd gwahanol i lawer o feirdd Cymraeg ei ddydd am ei fod yn fodlon llunio cerddi dychanol am y diwylliant Cymraeg Anghydfurfiol. Mae llawer o adeiladau Sain Ffagan yn perthyn i'r diwylliant hwn. Er enghraifft, mae Capel Pen-rhiw, tai teras Rhyd-y-car a bythynnod Llainfadyn a Nantwallter i gyd yn enghreifftiau o adeiladau sy'n perthyn i gyfnod crefyddol Anghydfurfiaeth. Dyma gerdd ddychanol am y grefydd Anghydfurfiol gan T. Glynne Davies. Darllenwch hi:

## Y PECHADUR CYMHEDROL (THE MODERATE SINNER)

Twm o Gapelulo  
Aeth i gladdu mul,  
Ei berfedd ar Ddydd Mercher  
A'i glustiau ar Ddydd Sul.

Roedd rhai yn barchus ddigon,  
Mwstachus at y llawr,  
Yn mynd â'u hetiau silc am dro  
I foli'r Brenin Mawr.

A rhai yn pechu'n ddirgel  
Mewn tai ffenestri plwm,  
A rhai yn curo'u gwragedd  
A rhai'n melltithio Twm,

Ond Twm o Gapelulo aeth  
I gladdu mul,  
Er gwell,  
Er gwaeth.

<b>mewnforio</b>	to import
<b>dychanol</b>	satirical
<b>anghydfurfiol</b>	nonconformist
<b>crefyddol</b>	religious
<b>claddu mul</b>	to bury a mule
<b>perfedd</b>	entrails
<b>parchus</b>	respectable
<b>Y Brenin Mawr</b>	God
<b>pechu</b>	to sin
<b>melltithio</b>	cursing
<b>er gwell</b>	for better
<b>er gwaeth</b>	for worse



## TRAFOD

### NODYN

Mae'n bwysig eich bod yn cofio nad oedd hi'n dderbyniol gwneud unrhyw waith ar y Sul pan oedd y capeli Anghydfurfiol yn dylanwadu ar fywydau pobl. Y bobl bwysig yn y capel oedd y blaenoriaid neu'r diaconiaid. Maen nhw yn eistedd yn y Sêd Fawr o dan y pulpud yn y capel. Pan gafodd y gerdd hon ei hysgrifennu roedden nhw yn bobl barchus a dylanwadol iawn.

### Darllenwch y gerdd eto. Yna trafodwch gyda phartner:


1. Pwy ydy'r pechadur yn y gerdd a beth yw ei bechod?
2. Pa linellau sy'n dychanu pobl y capel? Beth sy'n eu gwneud yn ddychanol yn eich barn chi?
3. Ym mha ffordd mae T. Glynne yn awgrymu bod rhai pobl sy'n mynd i'r capel yn rhagrithwyr?
4. Sut basech chi'n disgrifio Twm o Gapelulo?
5. Beth ydy'ch barn chi am y gerdd? Ydy hi'n dda? Pam? Pam ddim?

**dychanu**

to satire

**rhagrithwyr**

hypocrites



## SEFYDLIADAU'R GWEITHWYR

Roedd Sefydliad y Gweithwyr yn gwasanaethu'r gymuned o amgylch Glofa Oakdale yn Sir Fynwy. Suddwyd y siafft gyntaf yn y rhan hon o gwm Sirhywi, a fu hyd hynny'n gymharol ddigyffwrdd, ym 1906, ac fe suddwyd ail siafft – y Waterloo – bedair blynedd yn ddiweddarach. Gwelwyd bod y gwythiennau glo yn ardderchog o ran safon y glo yn ogystal â thrwch y gwythiennau. Darparwyd llety i'r gweithwyr a'u teuluoedd mewn 'pentref model' pwrpasol o'r enw Oakdale.

Rhwng y 1880au a'r 1930au, codwyd nifer o Stiwtws yn nhrefi a phentrefi diwydiannol de a gogledd-ddwyrain Cymru. Eu diben oedd cynnig cyfleusterau addysgiadol a hamdden i'r gweithwyr a'u teuluoedd. Fel arfer byddent yn cynnwys llyfrgelloedd ac ystafelloedd darllen, lle byddai modd mwynhau'r papurau dyddiol. Gallent hefyd gynnwys ystafelloedd gemau (roedd snwcer, biliards a dominos yn arbennig o boblogaidd) yn ogystal â theatrau a sinemâu. Cynhelid darlithoedd cyhoeddus, râlïau gwleidyddol, cyngherddau, dawnsfeydd ac eisteddfodau yno hefyd. Roeddent yn fannau cyfleus i grwpiau a chymdeithasau i gyfarfod ac i fandiau lleol i ymarfer a pherfformio. Roedd rhai o'r adeiladau hyn â phedwar neu bum llawr o ran uchder ac roedd ynddynt byllau nofio, hyd yn oed!



# Y Talwrn

---



# Y TALWRN

Roedd ymladd ceiliogod yn boblogaidd iawn ac yn greulon iawn hefyd. Roedd pobl yn dod i weld dau geiliog yn ymladd! Yn Ninbych yng ngogledd-ddwyrain Cymru roedd yr ymladd yn digwydd yn yr adeilad crwn sy yn Sain Ffagan heddiw – y talwrn. Roedd pobl yn betio ar y ceiliog gorau ac roedd yr ymladd bob amser yn swnllyd iawn.

Roedd perchnogion y ceiliogod yn eu paratoi am ddyddiau cyn diwrnod yr ymladd. Roedd rhaid gofalu bod y ceiliogod yn cael digon o fwyd da. Ac roedd rhaid paratoi coesau'r ceiliog trwy wisgo sbardun dur am eu coesau. Roedd y sbardunau yma'n ffiniog iawn ac yn tynnu gwaed yn ystod yr ymladd. Erbyn tua 1849 roedd yr arfer o ymladd wedi cael ei wahardd.

Ble roedd y ceiliogod yn ymladd?

Beth oedd y bobl a'r gwylwyr yn ei wneud cyn i'r ceiliogod ymladd?

A pherchnogion y ceiliogod. Sut roedden nhw'n paratoi'r adar?

Sut sbardunau oedd gyda nhw?

Beth oedd effaith y sbardunau yma?

Pryd stopiodd ymladd ceiliogod?

Beth yw'ch barn chi am ymladd ceiliogod?



<b>ymladd ceiliogod</b>	cockrel fighting
<b>poblogaidd</b>	popular
<b>creulon</b>	cruel
<b>crwn</b>	round
<b>talwrn</b>	cockpit
<b>swnllyd</b>	noisy
<b>perchnogion</b>	owners
<b>sbardun dur</b>	steel spur
<b>miniog</b>	sharp
<b>gwaed</b>	blood
<b>gwahardd</b>	to ban

# Y TALWRN

**EWCH i mewn i'r talwrn. EDRYCHWCH ar ei siâp. Pam mae siâp yr adeilad yn bwysig?**

DYCHMYGWCH y lle yn llawn pobl swnllyd. Yn y canol mae 'llwyfan' neu dalwrn tua 8 troedfedd 6 modfedd mewn diametr, tua 14 modfedd o uchder. O gwmpas y 'llwyfan' mae llawr o gerrig bach. Wedyn roedd dau gylch mawr o seddau ar gyfer y gwylwyr. A'r cylch mawr allanol gyda reilin o flaen promenâd, lle'r oedd pobl yn sefyll. Felly, mae'r lle fel amffitheatr fach.

**DYCHMYGWCH fod gornest ar fin cychwyn. Dych chi a'ch partner yn sefyll yn y promenâd. Dyma ran o'ch sgwrs:**

**GRUFF:** Edrych Wil, maen nhw'n dod â'r ddau geiliog mewn. Beth am osod bet?

**WIL:** Dw i'n ffansio'r ceiliog mawr du. Mae'n edrych yn ffyrnig. Dw i'n mynd lawr at dafarnwr yr *Hawk* i osod fy met. Wyt ti'n cytuno?

**GRUFF:** Nac ydw, mae'r llall yn edrych yn llawer mwy peryglus. Mae pen main fel neidr genno fo. Ceiliog perchennog y dafarn ydy o hefyd.

**WIL:** Edrych, mae'r ddau wedi gweld ei gilydd ac yn mynd yn hollol wallgo nawr!

**GRUFF:** Yn debyg iawn i'r dynion o gwmpas!

**WIL:** Ie, wir. Dw i'n meddwl bod llawer o'r dynion yn feddw yn barod.

**GRUFF:** Ti'n iawn, maen nhw wedi bod yn yr *Hawk and Buckle* drwy'r dydd yn paratoi.

**WIL:** A'r sŵn! Gweiddi, rhegi, dadlau a clochdar. Dyna beth ydy awyrgylch!



gornest	fight
ffyrnig	fierce
main	thin
neidr	snake
gwallgo	mad
yn feddw	drunk
gweiddi	shouting
dadlau	arguing
clochdar	crowing
awyrgylch	atmosphere

# Y TALWRN

Erbyn y 1850au roedd y gyfraith wedi gwahardd (*prohibit*) ymladd ceiliogod. DYCHMYGWCH ddau berson yn dadlau yn ystod y 1850au.

Mae un ohonyn nhw yn erbyn y ddeddf newydd ac mae'r llall yn cytuno â hi! Dyma rai o'r geiriau basech chi'n eu clywed yn ystod y ddadl. Beth am geisio ail-greu'r ddadl gyda'ch partner?

## DROS Y DDEDDF

- arfer creulon
- digon o bethau eraill i'w gwneud fel gwylio ceffylau'n rasio
- digon o arian i fetio a meddwi!
- ydi'r ceiliog yn hoffi cael ei ladd?

## YN ERBYN

- llawer o hwyl
- bywyd yn ddiflas a chaled
- rhy gostus i bobl dlawd
- mae ceiliog yn hoffi ymladd
- bydd yn amhosib i'r gyfraith stopio'r ymladd beth bynnag



# COCYN MAWR Y PASG

Llanbryn-mair, 1795

**Dyma aralleiriad o'r hyn a ysgrifennwyd gan Gruffydd Rhisiart yn 1852. Fe fuodd e'n siarad â hen ŵr oedd yn cofio beth ddigwyddodd yn Llanbryn-mair dros hanner can mlynedd cyn hynny ar ddydd Llun y Pasg, 1795. Tafarn y Cock oedd yr hen enw ar dafarn y Wynnstay yn Llanbryn-mair.**

'Roedd teulu arbennig yn y pentref wedi cael y dasg o wneud trefniadau ar gyfer y Cocyn. Roedd y talwrn i gychwyn ar ddydd Llun y Pasg ac i orffen pan oedd pob ceiliog wedi'i ladd, ar wahân i'r ceiliog buddugol. Roedd llawer o ymladdfeydd yn cael eu cynnal yn y pentrefi bach o gwmpas Llanbryn-mair a byddai'r ceiliogod hynny i gyd yn dod i'r Cocyn Mawr er mwyn gweld pa un fyddai'r pencampwr.

Roedd llawer o baratoi ar gyfer yr achlysur. Roedden nhw yn benthycu casgenni o bob man ac yn eu paratoi trwy eu rhoi yn y nant, cyn eu llanw â digon o gwrw o Amwythig ar gyfer yr achlysur. Mae'n debyg bod y Cocyn yn cael ei gynnal yn yr awyr agored. Rhaid oedd sicrhau bod y pit neu'r talwrn tua wyth llathen mewn diamedr ac wyth modfedd o ddyfnder. Arferai perchnogion y ceiliogod drimio plu a chribau eu hadar. Wedyn roedden nhw'n torri sbardun naturiol y ceiliog i ffwrdd a ffitio rhai dur miniog yn eu lle.

Roedd llawer o draddodiadau ac ofergoelion yn bwysig i'r ymladdwyr. Er enghraifft, roedd sôn am un o'r ymladdwyr, Robin Caegarw, oedd wedi sicrhau bod Siôn Gyfarwydd wedi bwrw hud ar ei geiliog ac roedd ei geiliog heb golli gornest. Ond roedd perchennog arall o'r enw Dic Arthur wedi mynd at William Jones, Tynrhos a oedd yn ddyn crefyddol a oedd yn casáu pob math o ofergoeliaeth. Dywedodd hwnnw wrth Dic am glymu papur ag adnod arno wrth goes ei geiliog. Yr adnod oedd: 'Wedi cymryd tarian y ffydd â'r hwn y gellwch ddiffoddi holl bicellau tanllyd y fall'. Fuodd ceiliog Dic ddim yn hir cyn lladd aderyn yr hen Robin Caegarw!



Ond i ddychwelyd at y Cocyn Mawr yn Llanbryn-mair. Pan gyrhaeddodd y diwrnod pwysig, tyrrodd pobl i'r pentre o bob man a chariai'r perchnogion eu ceiliogod mewn basgedi. Roedd hi'n bwysig nad oedd y ceiliogod yn gweld ceiliogod eraill cyn ymladd. Roedd y sioc o weld ceiliog arall yn aml yn eu cynddeiriogi! Y buddugol ar ddydd Llun y Pasg oedd tincer o bentre Aberhosan ond dydy Gruffydd Rhisiart ddim yn ei enwi.'

## TRAFOD

A oes arferion a chwaraeon eraill sy'n dal yn greulon heddiw yn eich barn chi ac yn haeddu cael eu gwahardd?

**bwrw hud** cast a spell

**cynddeiriogi** to be furiously angry

**y fall / uffern** Hell

## TALWRN Y BEIRDD

Erbyn heddiw mae'r gair 'talwrn' yn dal yn bwysig. Bob blwyddyn ar y radio cynhelir cystadleuaeth farddoni rhwng gwahanol dimau ledled Cymru. Mae'r timau yn cael tasgau gan y 'meuryn' – sef yr enw ar y beirniad – ac yn darllen eu tasgau yn uchel. Bydd gwahanol gymdeithasau yn rhoi gwahoddiad i'r rhaglen. A'r gymdeithas hon fydd y gynulleidfa ar gyfer y gystadleuaeth. Cystadleuaeth lawer llai gwaedlyd na'r talwrn ymladd ceiliogod!

Beth am i chi a'ch partner roi marciau allan o ddeg i'r darnau canlynol?

Dwedwch pam dych chi'n hoffi neu ddim yn hoffi'r darnau.

Rhowch farciau allan o ddeg iddyn nhw:

### LIMRIGAU

Nid pawb sydd yn wresog eu croeso  
I ddryg dŷlyr newydd Llandeilo;  
ond y'f fi'n gweld e'n deidi,  
y boi ffeina gei di,  
a rhaid ei gefnogi: mae'n Gymro.

**Gwenan Evans (Ffoaduriaid)**

Nid oes gennyf eiddo nac erwau,  
Na'r ddawn i sgrifennu limrigau,  
Dim cymar, dim rhyw,  
Na ffydd yn fy Nuw  
Ond mae gennyf rai miloedd o lyfrau.

**Dafydd Morgan Lewis (Y Cŵps)**

Mae rhai sydd yn hoff o bwyllgora,  
Gan fynnu troi popeth yn ddrama;  
Mae'n syndod, myn Duw,  
Eu bod nhw'n cael rhyw,  
heb gynnig ac eilio yn gynta'.

**Iwan Rhys (Y Glêr)**

<b>erwau</b>	acres
<b>cymar</b>	partner
<b>pwyllogora</b>	cymryd rhan mewn pwyllgorau
<b>cynnig</b>	to propose
<b>eilio</b>	to second
<b>a dry'n</b>	sy'n troi
<b>main</b>	tlawd
<b>milain</b>	caled iawn

(Darnau allan o'r gyfrol *Pigion o'r Talwrn*, golygydd Ceri Wyn Jones, Cyhoeddiadau Barddas 2016.)



## CWPLEDI

Y dant yng ngwlâu y plantos  
a dry'n wyrth yn nhrymder nos.

**Anwen Pierce (Talybont)**

Yn hyn o fyd, mae hi'n fain:  
i filoedd mae hi'n filain.

**Karen Owen (Fforddolion)**

Ydw i, o feurn, dwed  
yn hoples am wneud cwpled?

**Llŷr Gwyn Lewis (Ffoaduriaid)**

## PENILLION YMSON *(monologue, soliloquy)*

### **Wrth Sefyll Arholiad**

Ga i bapur sy'n fy siwtio i  
am draeth, am ddringo coed,  
am gicio pêl, am gerdded ci,  
Dw i 'mond yn saith mlwydd oed.

**Mari George (Aberhafren)**

### **Mewn Ystafell Newid**

Mi gasâf holl daclau y gampfa  
Tra medraf i gasáu dim.  
Mae'r beic a'r peth rhwyfo'n myned  
O hyd yn fwy atgas im:  
A byddaf yn gofyn bob hwyrddydd  
Ar ôl tuchan a chwysu am awr,  
Pam, arglwydd, y gwnaethost fy  
nhywel mor fach  
A thywel pawb arall mor fawr?

**Arwel Roberts (Criw'r Ship)**

### **Mewn Iard Sgrap**

Mae'r pris ar ei isaf eleni.  
Gobeithio na fyddan nhw'n sylwi  
Fod corpws fy nghymar  
Y tu mewn i'r ffrisar  
Efallai ga i denar amdani.

**Gareth Jones (Tir Mawr)**

<b>corpws</b>	corff
<b>tenar</b>	10 punt
<b>casâf</b>	dw i'n casáu
<b>atgas</b>	hateful

**Tybed a gafodd rhywun 10 marc allan o 10 yn eich barn chi?**